# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Joyce Chibouro**

Kasinthula, Malawi, Siwgwr



# Joyce Chibouro

**Mae Joyce yn ffermwr siwgwr ac yn aelod o bwyllgor Kasinthula Cane Growers Ltd.**

“Mae’r rhaglen Fasnach Deg yn gwneud pethau da yma. Mae gan y pentref ble rwy’n byw un dyfrdwll ac mi fyddan ni’n cael trydan. Mae’n gyffrous iawn. Chredais i erioed y byddai hynny’n bosibl!

“Nawr, coed tân ydyn ni’n ei ddefnyddio i goginio. Ond pan gawn ni drydan mi allwn ni ei ddefnyddio i goginio. Nawr, mae’n rhaid i mi ddefnyddio lamp ond byddwn yn gallu cael golau trydan ac oergelloedd i gadw bwyd yn ffres. Ar hyn o bryd, dim ond am un diwrnod y gallwn ni gadw bara.

“Mi briodais i ddwy flynedd yn ôl. Mae fy ngŵr yn gweithio fel prynwr cotwm tua 60 cilometr i ffwrdd, felly, yno y mae e ond mae e’n ceisio dod gartref ar ddiwedd pob mis.”



**“Rwy eisiau dyfodol da i fy maban. Os wy’n gallu cael rhagor o arian, mi alla’i anfon i’r ysgol uwchradd er mwyn iddo sefyll ar ei draed ei hun yn y dyfodol.”**

Pentref Joyce, Chinangwa, oedd y cyntaf o chwe phentre yn y rhanbarth i dderbyn trydan trwy bremiwm Masnach Deg.



**“Rydym yn rhoi clod i fasnach deg. Rwy eisiau i chi ddweud wrth bobl eu bod yn gwneud Joyce, ffermwr siwgwr, yn hapus iawn pan fydden nhw’n prynu’n siwgwr Kasinthula.”**

Lluniau: Traidcraft/Richard Else
Mae Kasinthula’n cyflenwi siwgwr i Traidcraft.
Gwybodaeth o gyfweliadau ym mis Mai 2007.

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Alfred Butao**

Kasinthula, Malawi, Siwgwr



## Alfred Butao

**"Cyn i mi ddechrau tyfu siwgwr, dim ond un math o lysiau oedd fy nheulu'n gallu ei gael. Nawr, rydym yn gallu prynu olew coginio a chig fel bod gennym ddiet cytbwys. Rwy'n gallu bwydo fy mhlant."**



Mae tyfu siwgwr wedi helpu'r ffermwr Alfred Butao i wireddu'i freuddwyd o agor siop fach yn ei bentref, Chinangwa. Symudodd Alfred o grafu byw wrth ffermio i dyfu cansen siwgwr ym 1999 a, chwe blynedd yn ddiweddarach, fe agorodd ei siop groser y drws nesaf i'r tŷ ble mae e, ei wraig, Rose a'u chwe phlentyn yn byw.

"Dechreuais dyfu cansen siwgwr ym 1999. Cyn hynny roeddwn i'n crafu byw wrth ffermio pethau megis corn, miled a chotwm. Mae llawer o wahaniaeth rhwng y math yna o ffermio a ffermio cansen siwgwr. Pan oeddwn yn tyfu miled a chorn roeddwn yn dibynnu ar y glaw. Dyw'r glaw ddim yn ddibynadwy iawn yma. Mae gennym ni system dyfrio i dyfu'r siwgwr ac rwy'n mwynhau'r manteision.

**"Cyn dod yn ffermwr cansen siwgwr, tŷ to gwellt oedd gen i. Nawr, rwy wedi llwyddo i adeiladu tŷ da o frics llosg a tho o haearn sinc.**

"Fe agorais fy siop grocer y drws nesaf i fy nghartref yn 2005. Roedd yn uchelgais gen i agor siop ers bron i ddwy flynedd. Mi wnes i hynny heb fenthyg arian o gwbl. Roeddwn i'n cynilo rhywfaint o arian gwerthu cansen siwgwr ac yna mi benderfynais agor y siop. Fyddai hi ddim wedi bod yn hawdd gwneud hynny heb fod yn ffermwr siwgwr ac, yna, efallai, ond ar raddfa lai.

"Hon yw'r unig siop yn y pentref. Mae Canolfan Fasnachu Dyeratu yn rhy bell i bobol. Mae'n 3 cilometr i ffwrdd. Byddai rhai pobl yn gorfod cerdded yno neu deithio ar feic. Rwy'n agor fy siop am 6am ac yn ei chau am 7.30pm. Fe fydda i'n mynd i'r gerddi [caeau] i weithio ac yna, tua 11am, yn agor y siop tan tua 7pm. Mae'n agored o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Ar ddydd Sadwrn rwy wastad yn brysur yn y siop. Ar ddydd Sul fe fydda i a'r teulu'n mynd i'r eglwys. Mae'r eglwys yn Nedi, tua 2 cilometr i ffwrdd."

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Joseph and Maxwell**

Kasinthula, Malawi, Siwgwr



## Joseph Kamangira



**Mae Joseph yn ffermwr siwgwr.**

"Mae gwahaniaeth mawr rhwng pan oeddwn i'n crafu byw yn ffermio oherwydd, erbyn hyn, mae fy nheulu'n cael gwell bywyd. Mae fy ngwraig, Edina. yn gwisgo'n well a minnau hefyd, a'r plant. Rydyn ni'n bwyta bwyd gwell hefyd. Mae gen i wyth o blant ac maen nhw wedi tyfu ac wedi priodi.

"Am 6.00am fe fydda i'n gweithio ychydig yn y cae ac yn gorffen tua 10.00am. Rwy wastad yn chwynnu ac yn gofalu am y cnwd yn y bore. Weithiau fe fydda i'n ychwanegu gwrtaith. Ar ôl cyrraedd adref, tua 12.00, fe fydda i'n cael cinio ac yna'n gorffwys am awr a hanner. Tua 2.00pm fe â i'n ôl i'r cae a dod yn ôl gartref tua 4.00pm.

**"Cyn tyfu siwgwr roeddwn i'n hynod dlawd. Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn."**

"Rwy'n cael gwell bywyd ond rwy'n dal i fethu â chynilo arian. Rwyf eisiau annog pobl i brynu'n siwgwr. Rydyn ni'n dibynnu arnoch chi am ein datblygiad. Hebddo chi, allwn ni ddim gwella. Prynwch fwy o siwgwr er mwyn i ni allu gwneud llawer mwy o brosiectau i helpu'n cymunedau."

## Maxwell Wyford



Mae Maxwell Wyford a'i wraig Eliza, yn gobeithio y bydd tyfu siwgwr yn eu helpu i roi gwell dyfodol i'w merch fach, Tiyanjane.

"Roeddwn i'n crafu byw wrth ffermio ychydig cyn dechrau tyfu cansen siwgwr ym 1999. Mae'n wir ein bod wedi elwa o'r premiwm. Rwy'n byw ym mhentref Chinangwa sy'n mynd i gael trydan ac mae gennym ni ddyfrdwll felly rwy'n gallu cael dŵr diogel. Fy ngwraig sy'n ei gario.

**"Mae gen i gynlluniau ar gyfer ein baban. Rydyn ni eisiau iddi gael yr addysg orau y gallwn ni ei roi iddi, er mwyn iddi gael swydd a'n helpu ni yn ein henaint".**

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Ehud Kafaukoma**

Kasinthula, Malawi, Siwgwr



# Ehud Kafaukoma



**Mae Ehud yn ysgrifennydd y pwyllgor premiwm yn Kasinthula.**

"Rwy'n gobeithio, gyda'm wraig newydd, Bertha, y bydda i'n gallu defnyddio trydan at bopeth, hyd yn oed y goleuadau. Allwn ni ddim bod wedi breuddwydio y gallwn ni gael trydan fel hyn. Roedd yn rhywbeth nad oedd neb yn gallu ei ddychmygu. Mae arian y premiwm yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n cymunedau.

"Mae ffermwyr cansen siwgwr yn gweithio mewn amodau gwlyb gyda'r camlesi dyfrio ac yn dueddol o gael bilharzia. Oherwydd hynny, penderfynodd y pwyllgor premiwm brynu cyffuriau bilharzia ar gyfer y clinig ger Kasinthula.

**"Mae fy nhŷ yn mynd i gael trydan."**

"Roedden ni ar ein cythlwng, ond rydyn ni'n gwella erbyn hyn.  O'r blaen, dim ond tri thŷ yn ein pentref oedd â tho o haearn sinc.  Ond, gyda'r arian ry'n ni'n ei gael wrth dyfu siwgwr, mae llawer o'n tai o frics llosg a haearn sinc gan fod llawer o bobl yn defnyddio'r arian i adeiladu eu tai.



### Rhestr geiriau:

| | |
|---|---|
| Brics llosg | Y ffordd mae pobl Malawi'n disgrifio brics sydd wedi'u crasu. Mae'r broses hon yn gwneud y brics yn gryfach ac yn golygu nad yw'r tai mor debygol o ddisgyn. |
| Bilharzia | Afiechyd sy'n cael ei gario gan falwod sy'n glynu wrth frwyn mewn llynnoedd a chamlesi dyfrio yn Affrica. |

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Brian Namata**

Kasinthula, Malawi, Siwgwr



# Brian Namata



Roedd Brian Namata'n arfer bod yn Rheolwr Cyffredinol Tyfwyr Cansen Kasinthula.

"Mae cael y dyfrdyllau hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae'r pentrefi sydd heb ddyfrdyllau'n cael eu dŵr yn syth o'r afon. Dyw'r dŵr ddim yn ddiogel. Mae'r afon yn dew gyda chrocodeilod sydd wedi ymosod ar nifer o bobl, rhai hyd yn oed yn colli'u bywydau. Drwy osod dyfrdyllau yn y pentrefi, rydym yn cadw pobl i ffwrdd o'r math yma o beryglon.



"Gall cael eich dŵr o'r afon gostio'ch bywyd i chi mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mi allwch ddal afiechydon megis y dolur rhydd neu hyd yn oed y colera. Yn ail, mi all crocodeil ymosod arnoch chi ac mae hynny'n beryglus iawn, iawn oherwydd mae llawer ohonyn nhw yn yr afon. Weithiau fe fyddwn yn eu gweld yn ymosod ar hyd yn oed anifeiliaid domestig megis geifr neu wartheg wrth iddyn nhw fynd i yfed dŵr."

